***Sut gallaf ddweud bod gan fy mhlentyn anghenion arbennig?***

Ceir nifer o anghenion arbennig y gall plentyn ddioddef ohonynt: mae yna rai sy'n weladwy o'r dechrau, ac os oes gennych blentyn sydd ag angen penodol, mae'n bosibl eich bod eisoes yn cael cymorth gan wasanaethau meddygol a chymdeithasol lleol. Mewn achos o'r fath byddai'n ddefnyddiol pe gallech ofyn i bwy bynnag sy'n gyfrifol am achos eich plentyn, i ysgrifennu i'r ysgol yn manylu ar y cyflwr gan roi gwybodaeth sut gall yr ysgol gefnogi gwaith y tîm meddygol sy'n gweithio gyda'ch plentyn.

Ond os ydych yn teimlo bod yna anghenion arbennig sydd heb eu darganfod bydd eich ysgol wrth law i'ch cynorthwyo.

Serch hynny, cyn i chi gysylltu â ni, byddai o gymorth mawr pe gallech ddarllen y pwyntiau canlynol – bydd yn bendant o gymorth i ni weithredu yn gynt wrth i ni geisio canfod y cymorth gorau sydd ar gael i'ch plentyn.

Y pwynt cyntaf i'w weithredu yw bod galluoedd plant yn amrywio. Gall plentyn fod yn naturiol wan wrth ddarllen neu mewn Mathemateg – nid yw hynny'n golygu bod eich plentyn yn dioddef o ddyslecsia neu *dyscalculia*.

Ar y llaw arall, gall eich plentyn ymddangos ei fod yn bêl-droediwr neu'n gerddor hynod dalentog neu'n meddu ar dalent ym maes Technoleg Gwybodaeth, rhaglenni, actio.......ond nid yw hynny'n golygu bod y person ifanc yn ddigon talentog i warantu cymorth arbennig. Yn aml, arbenigwr yn y maes yn unig gall ddweud os yw'r plentyn yn meddu ar dalent eithriadol.

Y ffaith bwysig yw, nid yw bod yn dda iawn neu'n wan iawn mewn rhywbeth yn unig yn golygu bod gan blentyn anghenion arbennig. Nid yw'r ffaith bod plentyn yn gwrthod mynd i'r ysgol ychwaith yn golygu bod y plentyn yn dioddef o anghenion arbennig o'r enw "*ffobia ysgol*".

Yn gyffredinol, mae'r anghenion arbennig sydd heb fod yn anabledd corfforol (sy'n amlycach i'w weld wrth gwrs) i'w gweld trwy batrymau o ymddygiad sy'n bell o gyrraedd y norm, sy'n amhosibl eu hesbonio trwy ddeallusrwydd, ac sy'n barhaol neu'n disgwydd yn gyson.

***Sicrhau barn feddygol***

Dylech hefyd fod yn ymwybodol y gall arwain plentyn ar hyd llwybr o farn feddygol anghenion arbennig fod yn anodd os nad yn ofidus iddo. Nid pob plentyn sy'n dymuno cael ei neilltuo fel rhywun gwahanol, ac weithiau gall neilltuo rhywun fel hyn achosi mwy o broblemau yn hytrach na'u datrys.

Felly, dylid rhoi ystyriaeth ofalus i bob achos ynghylch p'un ai yw'r ysgol yn teimlo ei bod yn debygol bod gan blentyn achos o anghenion arbennig a ph'un ai yw'r profi angenrheidiol a'r driniaeth arbennig ddilynol er lles gorau'r plentyn.

Os ar ôl darllen hwn eich bod yn teimlo bod eich plentyn yn dioddef o gyflwr arbennig, cysylltwch â ni gan roi'r manylion. Byddwn yn ymchwilio ac yn adrodd ar y canlyniadau cyn gynted â phosibl – ond byddwch yn ymwybodol y gall ymchwiliad rhagarweiniol o'r fath gymryd peth amser, ac nid yw'r ffaith ein bod yn ymchwilio i'r mater yn golygu ein bod o reidrwydd yn cytuno bod eich plentyn yn dioddef o anghenion arbennig.

Yn olaf, hoffwn ychwanegu weithiau nid yw'r ffaith bod eich plentyn yn dioddef o gyflwr arbennig megis dyslecsia neu *dyscalculia* yn awtomatig yn golygu y bydd eich plentyn yn derbyn amser ychwanegol mewn arholiadau neu'n cael ei esgusodi o'r angen i basio arholiad.

Er y gall hwn fod yn gymwys nid yw hyn yn ddarpariaeth awtomatig o ganfod bod gan blentyn anghenion arbennig.

***Beth sydd ddim yn achos o anghenion arbennig?***

Nid yw bod yn eithriadol o dda neu'n eithriadol o wael mewn rhywbeth yn ei hunan yn arwydd clir o angehenion arbennig. Mae'r gyfraith yn benodol yn gwahardd bod meddu ar Gymraeg neu Saesneg fel ail-iaith yn anghenion arbennig.

Ond yn bwysicach na dim, os ydych yn dymuno adrodd bod gan eich plentyn anghenion arbennig, byddwn yn dymuno gwybod yr atebion i'r cwestiynau hyn – ac wrth ateb y cwestiynau hyn po fwyaf o fanylion y gallwch eu rhoi gorau oll.

a) Pam eich bod yn credu bod gan eich pletyn anghenion addysgol arbennig?
b) Ydy eich plentyn yn dysgu ar yr un raddfa â phlant eraill o'r un oed?
c) Pa faterion penodol rydych wedi sylwi arnynt adref sy'n perthyn i'r achos arbennig hwn?
d) Ydych chi'n rhoi cymorth i'ch plentyn i geisio dygymod â'r problemau hyn?

Yn olaf, mae'n bwysig nodi nad oes triniaeth ar gyfer nifer o'r anghenion arbennig – i lawer o blant yr ateb yw y gallant, o bosibl, wella materion eu hunain trwy llawer o waith caled, ac efallai y bydd angen iddynt reoli eu hanghenion arbennig am weddill eu bywydau.